


AROLWG BLYNYDDOL

2017-2018



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

LLYWODRAETHU

Y Cyngor yw corff llywodraethol y Brifysgol, a chyfarfu chwe gwaith yn 2017/18 dan gadeiryddiaeth dros-dro Dr Alwyn Roberts cyn i'r Brifysgol apwyntio Cadeirydd newydd i'r Cyngor. Penodwyd Mrs Marian Wyn Jones yn Gadeirydd ym mis Chwefror 2018. Ysgrifennydd y Brifysgol yw Dr Kevin Mundy. Caiff y Cyngor ei gynorthwyo gan nifer o is-bwyllgorau, yn cynnwys y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a gadeirir gan y Trysorydd, Mr David Williams, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a gadeirir gan Dr Griff Jones, gyda'r ddau bwyllgor wedi cyfarfod bum gwaith yn ystod 2017/18. Dyma bwyllgorau eraill y Cyngor a gyfarfu yn ystod y flwyddyn sef y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, Pwyllgor Moeseg, Pwyllgor Dwyieithrwydd, Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Mae rhagor o wybodaeth am drefn llywodraethu'r Brifysgol yma: www.bangor.ac.uk/about/management.php.cy

Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2DG

01248 383298 press@bangor.ac.uk www.bangor.ac.uk

CYNNWYS

4-9 UCHAFBWYNTIAU 17/18

10-11 YMCHWIL

Darganfod sgript ffilm 'golledig' Kubrick
Agor y sefydliad ymchwil niwclear cyntaf yng Nghymru
Datblygu paciau-cefn bychain i weny

12-13 DYSGU AC ADDYSGU

Adroddiad Disglair gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Darlithydd Addysg yn cael ei ddewis fel *Microsoft Innovative Educator Expert*
Datblygu cymuned o Ysgolheigion Mewn Ymarfer


14-15 RHYNGWLADOLI

Lansio Coleg Rhyngwladol Bangor
Myfyriwr Rhyngwladol y Flwyddyn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Carfan gyntaf myfyrwyr Coleg Bangor Tsieina yn graddio

16-17 CYFRWNG CYMRAEG

18-20 CYMUNED

M-SParc yn cyrraedd y 100
Myfyrwyr rhyngwladol yn troi'n wyrdd!
Gwirfoddoli yn ffordd o fyw i Elan



UCHAFBWYNTIAU



1 Marian Wyn Jones, Cadeirydd Cyngor y Brifysgol.

2 George Meyrick, Canghellor Prifysgol Bangor.

3 Gwerfyl Roberts gyda'r Wobr Cyfraniad Oes.

Penodwyd Marian Wyn Jones yn Gadeirydd newydd Y Cyngor, corff llywodraethu Prifysgol Bangor. Hi yw'r fenyw gyntaf i gadeirio'r Cyngor ers sefydlu'r Brifysgol yn 1884 ac mae'n olynu'r Arglwydd Elis-Thomas, a roddodd y gorau i'r swydd y llynedd.

Roedd Dr Gill Windle a'r Athro Emeritws Bob Woods o Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, yn rhan o dasglu Cymdeithas Alzheimer. Roedd y Tasglu'n cynnwys clinigwyr ac ymchwilwyr dementia yn y DU, noddwyr ymchwil dementia yn y DU, pobl â dementia a chynrychiolwyr gofaluwr, a bu'n gyfrifol am ddatblygu y 'map ymchwil dementia cyntaf ar gyfer dulliau atal, rhoi diagnosis, ymyrryd a gofal erbyn 2025'.

Derbyniodd Gwerfyl Roberts, Uwch-Ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Wobr Cyfraniad Oes yn ystod Digwyddiad Dathlu 'Mwy na Geiriau 2017' Llywodraeth Cymru, sy'n cydnabod ac yn dathlu pwysigrwydd darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r gwaith eithriadol sy'n cael ei gyflawni gan unigolion a thimau.

Enillodd Emma Chappell, a fynychodd ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Bangor ac sydd hefyd yn gweithio yng Nghanolfan Rheolaeth y Brifysgol, deitl Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Cyhoeddwyd mai George Meyrick yw Canghellor newydd Prifysgol Bangor. Mae'n olynu'r Arglwydd Elis-Thomas a roddodd y gorau i'r swydd yn gynharach eleni. Ef yw'r deuddegfed i ddal y swydd seremonïol hon yn y Brifysgol, a bydd yn gwasanaethu am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd.

Daeth Prifysgol Bangor y brifysgol gyntaf yng Nghymru i dderbyn y *Baby Friendly Award*, a hi yw'r brifysgol ddiweddaraf i gael ei chydnabod gan Unicef UK am lefelau uchel hyfforddiant mewn bwydo o'r frown a roddir i fyfyrwyr ar ei chwrs bydwreigiaeth. Caiff myfyrwyr ar y cwrs bydwreigiaeth y Brifysgol eu dysgu gan staff yr Ysgol Gwyddorau Iechyd ar gampws Wrecsam a Bangor, ac maent yn mynd ar leoliadau gwaith ar draws gogledd Cymru.

Penodwyd yr Athro Tony Brown, Athro Emeritws, Ysgol Llenyddiaeth Saesneg; yr Athro Raluca Radulescu, Athro Llenyddiaeth Canoloesol, Ysgol Llenyddiaeth Saesneg; yr Athro David Neville Thomas FRSB, Athro Biolog Forol a Phennaeth Ysgol Gwyddorau Eigion a'r Athro Deri Tomos, Athro Emeritws, Ysgol y Gwyddorau Biolegol oll yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Enillodd cyfrol o farddoniaeth a ysgrifennwyd gan Peredur Lynch, Athro Cymraeg, Wobr 'Dewis y Bobl' Golwg360 yng ngwobrau Llyfr y Flwyddyn Cymru.





4 Hannah Powell, Harry Misangyi, Catrin Jones, Seth Casidsid a Gareth Jones a gynrychiolodd Cymru a'r Brifysgol yng Ngemau'r Gymanwlad yn Awstralia.

5 Alys Conran, enillydd Llyfr y Flwyddyn.

Llwyddodd Gareth (Gaz) Evans, aelod o staff Canolfan Brailsford, i sicrhau medal aur yng nghystadleuaeth codi pwysau dynion yn y categori 69kg, gan godi 299kg yng Ngemau'r Gymanwlad. Roedd Gareth yn un o chwe athletwr o Brifysgol Bangor a gynrychiolodd Cymru yn y gemau ar yr Arfordir Aur, Awstralia.

Bu'r seicolegwyr yr Athro Emeritws Bob Woods, Dr Catrin Hedd Jones a Dr Nia Williams yn gweithio'n agos gyda Darlun TV ar gyfer rhaglen ddogfen gan BBC Cymru a ddilynodd dridiau o weithgareddau wedi'u cynllunio i archwilio'r hyn sy'n digwydd pan ddaeth plant meithrin at ei gilydd gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Darlledwyd *The Toddlers Who Took on Dementia* ar slot 9pm ym mis Mai ac fe enillodd y gyfres wobwr Gŵyl Ffilm Geltaidd 2018 am y gyfres ffeithiol orau a Medal Arian Ryngwladol yn y categori portreadau Cymunedau Dogfenol yng Ngŵyl Deledu a Ffilm Efrog Newydd yn 2018.

Enillodd Alys Conran, awdur a darlithydd, wobwr Llyfr y Flwyddyn am ei nofel gyntaf, *Pigeon*, yng Ngwobrau Llyfr y Flwyddyn Cymru 2017. Hefyd, enillodd wobwr Ymddiriedolaeth Rhys Davies a Gwobr Dewis y Bobl. Wedi ei chyhoeddi gan Parthian, caiff *Pigeon* ei disgrifio fel chwedl am atgofion plentyndod ac fe dorrodd y llyfr gŵys newydd drwy gael ei gyhoeddi yn Saesneg ac yn Gymraeg ar yr un pryd. Ysgrifennwyd *Pijin*, y cyfieithiad Gymraeg, gan Siân Northey.

Bu Lisa Blower, darlithydd Ysgrifennu Creadigol, yn un o ddeg a gyrhaeddodd rhestr hir Gwobr stori fer y *Sunday Times EFG* ar gyfer 2018, sy'n wobwr ryngwladol i hybu a dathlu rhagoriaeth y stori fer gyfoes ac mae'n denu ceisiadau o blith ysgrifenyddwyr gorau'r byd.

Dewiswyd Prifysgol Bangor fel yr orau ym Mhrydain am ei Chlybiau a'i Chymdeithasau Myfyrwyr ac am ei Llety Myfyrwyr yng ngwobrau blynyddol *WhatUni.com Student Choice Awards*. Hefyd, daeth y Brifysgol yn drydydd ym Mhrydain yn y categori Prifysgol y Flwyddyn ac yn ail am ei Chyrsiau a Darlithwyr.

Cyhoeddwyd y gwerslyfr cyntaf ar Ynni Morol Adnewyddadwy gan Dr Simon Neill, Darlennydd mewn Eigioneg Gorfforol, mewn cydweithrediad â Dr Reza Hashemi ym Mhrifysgol Rhode Island. Mae'r llyfr yn amrediad o bynciau ynni morol adnewyddadwy, gan gynnwys sylfaeni cadwraeth ynni, ffiseg tonau ac ynni'r llanw, a sut i fesur, modelu a gwneud y defnydd gorau o adnodd ynni morol.





6 Catrin Jones gyda'i thad a'i hyfforddwr, David Jones, Rheolwr Ffitrwydd yng Nghanolfan Brailsford.

7 Dr Zoë Skoulding yn derbyn Gwobr Cholmondeley gan Stephen Fry am ei chyfraniad i farddoniaeth.

Enillodd Catrin Jones, codwr pwysau a myfyrwraig blwyddyn gyntaf yn astudio Seicoleg, wobwr Carwyn James i Athletwraig Ifanc y Flwyddyn gan BBC Cymru yng Ngwobrau Chwaraeon Cymru. Cynrychiolodd Catrin Dîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad, gan gystadlu yng nghategori'r 53kg.

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, y bydd cyfleuster gwyddonol heb ei ail yn cael ei ddatblygu ym Mangor yn sgil hwb ariannol gwerth £5 miliwn gan yr UE. Bydd y cyllid yn helpu i greu'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, a fydd yn golygu bod y Brifysgol ar flaen y gad ym maes ymchwil ynghylch sut y mae modd defnyddio deunyddiau naturiol o fewn cynhyrchion a phrosesau diwydiannol.

Daeth Prifysgol Bangor i'r brig yn Eisteddfod Ryngolegol 2018, a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r Eisteddfod yn un o uchafbwyntiau myfyrwyr Cymraeg Cymru. Osian Owen, sy'n astudio gradd BA Cymraeg oedd enillydd y Gadair a'r Goron; myfyriwr Cerddoriaeth, Alistair Mahoney enillodd Dlws y Cerddor a Nia Hâf, myfyrwraig Ysgol y Gymraeg enillodd y Fedal Ddrama, y ddau yn enillwyr am yr ail flwyddyn yn olynol.

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, enillodd Prifysgol Bangor Varsity - cystadleuaeth chwaraeon flynyddol yn erbyn Prifysgol Aberystwyth - gyda sgôr derfynol o 33-10 i Fangor.



Derbyniodd Dr Zoë Skoulding, bardd a Darllenydd mewn Ysgrifennu Creadigol, Wobr Cholmondeley am ragoriaeth ei gwaith a'i chyfraniad at farddoniaeth.

Cafodd Aelwyd yr Urdd yn Neuadd John Morris-Jones lwyddiannau nodedig ar y prif lwyfan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gan ennill medal ymhob un gystadleuaeth leisiol ar gyfer grŵp, parti neu gôr, ac enillodd Osian Owen y Gadair ac Erin Hughes y Goron.

Mae ymchwil o Brifysgol Bangor, sy'n dangos effeithiolrwydd cyllid ychwanegol i ysgolion, wedi galluogi Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau cyllido i'r sector er mwyn mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru. Rhoddodd yr ymchwil cydweithredol, a gomisiynwyd gan GWE ac ERW (dau ddarparwr gwasanaethau gwella ysgolion), dystiolaeth i Lywodraeth Cymru a oedd yn sail i'w phenderfyniad i gynyddu cyllid i ysgolion o £90 miliwn pellach yn 2018-19, dan y Grant Datblygu Disgyblion. Daeth addysgwyr, seicolegwyr, gwyddonwyr cymdeithasol ac arbenigwyr yn y gyfraith at ei gilydd i wneud arolwg cynhwysfawr o'r modd y gall tlodi fod yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol yng Nghymru.



8

8 Geraint Wilson-Price, Cyfarwyddwr Dysgu Cymraeg Gwent, yn cyflwyno gwobr genedlaethol am y defnydd gorau o'r Gymraeg ym maes Adnoddau Dynol i Nia Meacher, Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Tracy Hibbert, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, a Mari Ellis-Roberts, Swyddog Adnoddau Dynol.

9 Yr Athro Chris Freeman, a dderbyniodd Gymrodoriaeth Ryngwladol gan *Society of Wetland Scientists*.

Enillodd y Brifysgol wobwr genedlaethol am y defnydd gorau o'r Gymraeg ym maes Adnoddau Dynol. Cyflwynwyd y wobwr, a noddwyd gan ymgyrch Dysgu Cymraeg Llywodraeth Cymru, fel rhan o Wobrau Adnoddau Dynol Cymru mewn noson fawreddog a drefnwyd gan Rwydwaith Adnoddau Dynol Cymru. Roedd cais y Brifysgol yn dangos ymrwymiad parhaus yr adran i ddarparu gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr i staff y Brifysgol ac i ddefnyddwyr allanol.

Derbyniodd Chris Freeman, Athro ym maes Gwyddoniaeth Gwlyptir, Gymrodoriaeth Ryngwladol gan *Society of Wetland Scientists* i gydnabod ei waith arloesol. Mae'r Athro Freeman wedi bod yn ymchwilio i'r maes ers dros 20 mlynedd ac mae ei waith wedi cael ei gynnwys yng nghylchgronau gwyddonol gorau'r byd ac ar dudalennau papurau newydd cenedlaethol ym mhob cwr o'r byd.

Mae Prifysgol Bangor unwaith eto yn ymddangos ymysg y 10 uchaf yn y DU ar gyfer prifysgolion anarbenigol, yn ôl canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr diweddaraf.

Mae Prifysgol Bangor ymysg y 100 Prifysgol orau yn Ewrop yn nhabl cynghrair *The Times Higher Education (THE) University Teaching Ranking*, y tabl cyntaf i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddysgu ac addysgu.

Mae Gary Carvalho, Athro mewn swôleg, wedi derbyn Medal Beverton y *Fisheries Society of the British Isles* am ei ymchwil, sydd wedi torri tir newydd yn y maes ac am ei gyfraniad oes i wyddor pysgod a physgodfeydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fod yn bwriadu ehangu addysg feddygol ledled Cymru, sy'n cynnwys cyfleoedd newydd i astudio yn y gogledd. O 2019, trwy gydweithrediad rhwng Prifysgolion Caerdydd a Bangor, bydd myfyrwyr yn gallu ymgymryd â gradd feddygol yn llawn yn y gogledd.

Sefydlwyd y cynllun Dwylo'n Dweud i gyflwyno Iaith Arwyddo Brydeinig i holl blant Cylchoedd Meithrin Cymru. Gyda chefnogaeth ariannol Canolfan Ehangu Mynediad y Brifysgol, cynhyrchwyd cyfres o ffilmiau byrion sydd yn cyflwyno un gair ac un arwydd yn wythnosol i'r 18,000 o ddarpar-wylwyr dan 4 oed.



9



Parch Ddr Alwyn Roberts

Cyflwynwyd cymrodoriaethau er anrhydedd i nifer o bobl yn seremonïau graddio'r Brifysgol. Dyma nhw:

Ann Catrin Evans, cerflunydd a gwneuthurwr gemwaith o ogledd Cymru sydd wedi derbyn clod rhyngwladol am ei gwaith ac un sydd wedi bod ymhlith y crefftwyr mwyaf blaengar yng Nghymru ers 25 o flynyddoedd;

Alumnus, peiriannydd ac entrepreneur, **Howard M Clarke**, Cadeirydd cwmni Morgan Innovation & Technology;

Llio Rhydderch, telynores enwog sy'n cael ei chydabod fel un o brif arbenigwyr a pherfformwyr y delyn deires;

Yn ddiweddar, fe benodwyd yr **Arglwydd David Lloyd-Jones**, barnwr ac ysgolhaig uchel ei barch ym maes y gyfraith, yn Ustus y Llys Goruchaf. Mae wedi dangos ei gefnogaeth ymarferol yn gyson i fyfyrwyr y Gyfraith;

Mae gan **Dr Philip Trathan**, Pennaeth Cadwraeth gyda'r *British Antarctic Survey* dair gradd gan y Brifysgol, wedi iddo raddio gyda gradd BSc mewn Botaneg yn 1979 ac ennill Doethuriaeth mewn Ecoleg Poblogaeth Planhigion yn 1983. Derbyniodd DSc yn 2012 am ei gyfraniad nodedig i Wyddor yr Antarctig;

Mae'r **Athro Julie Williams** yn ffigur blaenllaw ym maes ymchwil i glefyd Alzheimer's ac, yn ddiweddar, bu'n Brif Swyddog Gwyddonol Cymru;

Mae'r **Athro Robin Grove-White** yn academydd a Chadeirydd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru y Brifysgol. Mae'n amgylcheddwr ymrwymedig, sy'n hynod weithgar yn y maes;

Mae **Stavros Ioannou**, yn raddedig o Brifysgol Bangor ac sydd yn Ddirprwy Brif Swyddog Gweithredol Eurobank wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tu hwnt i sector bancio Gwlad Groeg drwy swyddogaethau rheolaethol yn y prif sefydliadau cyllidol;

Yr academydd, **Dr Margaret Wood**, yw cydawdur y gyfrol lawn gyntaf ar ddaeareg Ynys Môn. Mae wedi dangos angerdd neilltuol i'w phroffesiwn ac i ymestyn maes gwyddor daearegol;

Bu'r ddiweddar **Barch Ddr Alwyn Roberts**, cyn Ddirprwy Is-ganghellor y Brifysgol, yn ymwneud â bywyd y sefydliad ers dros hanner canrif fel myfyriwr, aelod o staff ac aelod o Gyngor y Brifysgol. Yn anffodus, bu farw'r Parch Ddr Alwyn Roberts yn fuan ar ôl yr wythnos raddio.




Ann Catrin Evans



Howard M Clarke



Llio Rhydderch



Yr Arglwydd David Lloyd-Jones




Dr Philip Trathan



Yr Athro Julie Williams



Yr Athro Robin Grove-White



Stavros Ioannou



Dr Margaret Wood

DARGANFOD SGRIPT FFILM 'GOLLEDIG' KUBRICK

Mae Nathan Abrams, Athro Astudiaethau Ffilm, sy'n arbenigwr ar Stanley Kubrick, wedi ailddarganfod sgript ffilm a luniwyd gan y cyfarwyddwr yn 1956 ac y credid oedd wedi mynd ar goll. Ei theitl oedd *Burning Secret*, addasiad o nofel fer o'r un enw a gyhoeddwyd yn 1913 gan Stefan Zweig, y nofelydd o Fienna.

Nofel fer a adroddir o safbwynt bachgen lldewig deuddeg oed yw *Burning Secret*. Mae barwn llyfn ei dafod a sgut am ferched yn cyfeillachu efo'r bachgen mewn spa wyliau yn Awstria er mwyn ceisio cael ei ffordd efo'i fam briod. Mae'r plentyn yn ei ddiniweidrwydd yn gweithredu fel math o gyfryngwr rhwng ei fam a'r dyn yma sydd â'i lygad arni fel cariad, ac mae'n stori ddigon brawychus

gyda themâu rhywioldeb a cham-drin plant yn corddi o dan yr wyneb.

Nôl yn 1956 roedd y Stanley Kubrick ifanc yn dal yn gymharol anadnabyddus, a newydd gwblhau ei ffilm *The Killing*. Gyda'i bartner cynhyrchu, James B. Harris, roedd yn chwilio am broiect newydd i roi hwb pellach i'w enw da. Cynigiodd MGM y cynnig cyntaf ar unrhyw eiddo i'r pâr.

"Am amser maith roedd y sgript ar goll," meddai Nathan Abrams, a gyhoeddodd yn ddiweddar *Stanley Kubrick: New York Jewish Intellectual* gyda Rutgers University Press. "Doedd neb yn gwybod a oedd hyd yn oed wedi ei chwblhau. Fe syrthiodd ar fy nglin tra oeddwn yn

ymchwilio ar gyfer fy llyfr nesaf.

"O'r hyn rydw i wedi'i weld mae'r sgript ffilm i weld yn ddilys. Mae dyddiad 24 Hydref 1956 arni, ynghyd â stamp Adran Sgript MGM. Roedd i fod i gael ei chynhyrchu gan James B. Harris, ei chyfarwyddo gan Kubrick ac wedi'i hysgrifennu gan Kubrick a Calder Willingham.

"Dywed arbenigwyr Kubrick ei fod eisiau cyfarwyddo'r ffilm, ond doedd neb erioed o'r farn ei fod wedi'i gwblhau. Mae gennym gopi bellach ac mae hyn yn profi ei fod wedi cwblhau drama lawn."

YMCHWIL

AGOR SEFYDLIAD YMCHWIL NIWCLEAR CYNTAF YNG NGHYMRU

Sefydlwyd y Sefydliad Dyfodol Niwclear gan ddefnyddio cyllid gan y Brifysgol, tra bo cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r fenter trwy raglen Sêr Cymru. Bydd y sefydliad newydd yn helpu i ddenu ymchwilwyr o'r radd flaenaf i Gymru.

Arweinir y rhaglen hon, sy'n werth £6.5m, gan arweinwyr ymchwil nodedig a byd-enwog sy'n arbenigo mewn dau faes allweddol ar gyfer y sector niwclear.

Mae gan Yr Athro Bill Lee o Imperial College London arbenigedd eithriadol ym maes Gwyddorau Deunyddiau ac, yn arbennig, wrth eu defnyddio mewn amgylcheddau eithafol megis mewn technolegau adweithyddion niwclear a'r awyrfod. Arweinir yr ail faes arbenigol, sef dadansoddi sensitifrwydd a modelu rhagfynegol systemau cymhleth er mwyn rhoi sylw i sialensiau, megis y rhai a geir yn y sector niwclear a systemau amgylcheddol, gan yr Athro Dan Cacucci.

Bydd y rhaglen Sêr Cymru hefyd yn galluogi'r brifysgol i ddatblygu timau o gwmpas sêr y rhaglen a sefydlu Prifysgol Bangor yn ganolfan ragoriaeth newydd yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r buddsoddiad hwn eisoes yn

chwarae rhan allweddol mewn denu buddsoddiad strategol hir dymor o'r sector preifat a swyddi o werth uchel yn y diwydiant niwclear i ogledd Cymru. Mae hefyd yn cefnogi datblygu parc gwyddoniaeth ynni carbon isel Prifysgol Bangor, M-SParc Cyf, drwy helpu i ddenu cwmnïau cadwyn gyflenwi o fewn y diwydiant niwclear.

Wrth i dechnolegau niwclear newydd gael eu cyflwyno i'r Deyrnas Unedig a rhannau eraill o'r byd, mae angen ymdrech ymchwil sylweddol i ddeall y technolegau newydd hynny a sicrhau eu bod yn cael eu cynllunio a'u defnyddio yn y ffyrdd gorau posib.

Defnyddir arbenigaeth gyfrifiannu Prifysgol Bangor i greu sefydliad a fydd yn gwneud Gogledd Cymru'n ganolfan fyd-eang mewn modelu rhagfynegol a deunyddiau yn y sector niwclear, a chyd-fynd â'r ymchwil arbrofol sy'n cael ei gwneud mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Yn gynharach yn y flwyddyn, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod Prifysgol Bangor wedi'i dewis i arwain Archwiliad Gwyddoniaeth ac Arloesi y *North West Nuclear Arc Consortium*, ac mae'n dilyn lansiô'r *Boiling Water Reactor*

Research Hub and Network y llynedd. Mae'r fenter ar y cyd gydag Imperial College London, gyda chefnogaeth gan Hitachi-GE Nuclear a Llywodraeth Cymru.

Meddai Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

"Mae'r sector niwclear o bwys strategol i Gymru, gan roi ynni carbon isel i gartrefi a busnesau a chynnig cyfleoedd gwaith o safon mewn diwydiant lle mae galw am sgiliau uwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu gweithlu gyda sgiliau addas i'r sector niwclear, ac mae fy swyddogion eisoes yn cydweithio'n agos â diwydiant wrth i'r Cynllun Strategol hwn gael ei ddatblygu."

Meddai'r Athro Jo Rycroft-Malone, Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil:

"Rydym yn teimlo'n gyffrous iawn ynghylch y potensial y bydd y Sefydliad Dyfodol Niwclear yn ei gynnis i'r Brifysgol, i'n myfyrwyr yn y dyfodol, a hefyd i fusnesau yn y diwydiant niwclear a meysydd eraill cysylltiedig ag ynni sy'n cael eu denu'n gynyddol i ogledd Cymru."



Stanley Kubrick wrth ei waith.
© Getty Images

DATBLYGU PACIAU-CEFN BYCHAIN I WENYN

Mae ecolegydd ac arbenigwr mewn microsystemau yn cydweithio i ddatblygu paciau-cefn bychain i wenyn a fydd yn galluogi drônau bach i'w dilyn wrth iddynt hedfan o blanhigyn i blanhigyn. Bydd hyn yn galluogi gwyddonwyr i ddysgu mwy am le mae'r gwenyn yn casglu neithdar a beth all fod yn effeithio ar eu niferoedd. Bydd y ddyfais ysgafn, sy'n dilyn hynt y gwenyn dros gryn bellter, yn defnyddio ynni trydanol y gwenyn ei hun i'w bweru.

Eglurodd Paul Cross, Uwch Ddarlithydd mewn Amgylchedd:

“Mae poblogaethau gwenyn, sy'n hanfodol i beillio planhigion a choed, yn dirywio'n gyflym ar hyn o bryd o ganlyniad i sawl peth, yn blaleiddiaid a gwiddon varroa i enwi ond dau.

“Bydd gallu i ddefnyddio'r ficrodechnoleg ddiweddaraf er mwyn medru dilyn hynt gwenyn dros yr holl bellter y maent yn teithio yn ddefnyddiol ar gyfer sawl achlysur. Bydd defnyddiau eraill yn cynnwys dilyn y gacynen Asiaidd, sydd yn fygythiad difrifol i sawl rhywogaeth o wenyn yn Ewrop, gyda'r bwriad o'u rheoli neu eu difa cyn ei bod yn rhy hwyr.”

Esboniodd Dr Cristiano Palego, Darlithydd mewn Offeryniaeth Microdon:

“Mae cyfyngiadau o ran y defnydd y gellir ei wneud o declynnau presennol i fonitro gwenyn oherwydd eu pwysau, y pellter y gallant weithredu drosto a pha mor hir



y mae eu ffynhonnell bŵer yn parhau - dyma'r problemau yr ydym wedi ceisio'u goresgyn gan ddefnyddio'r dechnoleg ficro ddiweddaraf.

“Rydym wedi profi ein gallu i hel a defnyddio ynni electronig y gwenyn er mwyn cael gwared â'r angen i ddefnyddio batri a bydd ein teclyn tracio hunangynhaliol yn pwysu ond tua thraean pwysau corff y gwenyn a llai na diferyn o law.

“Ein cam nesaf yw datblygu derbynnydd symudol a dilyn y signal a yrrir gan y gwenyn wrth iddo symud ar draws y tir.”

Cyllidir y project cychwynnol drwy raglen Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS). Y sefydliad sy'n bartner yn y fenter yw The Apiary Enterprise Limited, sy'n awyddus i gyllido ymchwil i ddulliau tracio gwenyn mêl mewn amgylcheddau tymherus a throfannol er mwyn gweld pa mor bell mae'r gwenyn yn ei deithio i gasglu eu bwyd dan wahanol amodau hinsawdd ac amgylcheddol. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth fwy manwl a chynhwysfawr i'r cwmni wrth benderfynu lle i sefydlu gwenynfeydd newydd.

DYSGU AC ADDYSGU



ADRODDIAD DISGLAIR GAN YR ASIANTAETH SICRHAU ANSAWDD

Mae Prifysgol Bangor wedi croesawu canfyddiadau Adolygiad Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Answadd (QAA) sydd wedi canmol y ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli ansawdd academaidd.

Bangor yw'r brifysgol gyntaf i gael Adolygiad Answadd a Gwella, a gwelwyd ei fod yn adolygiad manwl a thrylwyr iawn.

Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r safonau academaidd uchel sydd i'w cael ym Mangor, ac rydym yn amlwg yn falch iawn o'r canlyniad a chanfyddiadau'r adroddiad.

Cafodd y Brifysgol ganmoliaeth arbennig am sawl gweithgaredd, gan gynnwys y ffordd y mae Bangor yn defnyddio dull sy'n cael ei yrru gan ddata i hysbysu a gwella profiad y myfyrwyr.

Ymhlith y meysydd eraill a gafodd ganmoliaeth arbennig oedd y bartneriaeth ddofn sydd gan y Brifysgol gyda'i myfyrwyr, a'r ffaith bod dwyieithrwydd wedi'i ymgorffori oddi mewn i brofiad y myfyriwr ac yn

effeithio'n gadarnhaol ar bob agwedd ohono.

Nododd y QAA: "Mae dull y Brifysgol o wella profiad dysgu myfyrwyr yn effeithiol, wedi'i arwain gan fyfyrwyr ac sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr."

Dywedodd yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy Is-ganghellor, Dysgu ac Addysgu:

"Mae'r adroddiad yn dystiolaeth glir o'r ffordd wych y mae ansawdd academaidd yn cael ei reoli ym Mhrifysgol Bangor, a hoffwn ddiolch i'n holl staff am eu hymdrechion rhagorol dros y blynyddoedd wrth gynnal y fath safonau uchel.

"Mae'n bleser gen i ddweud bod ein darpariaeth wedi creu cymaint o argraff ar yr ASA fel eu bod wedi cynhyrchu adroddiad nad oedd, yn eithriadol, yn cynnwys unrhyw argymhellion ffurfiol ar sut y gallem wella."



QAA
Cymru

UK Quality Assured

Sicrwydd Answadd y DU

DARLITHYDD MEWN ADDYSG YN CAEL EI DDEWIS FEL MICROSOFT INNOVATIVE EDUCATOR EXPERT

Mae Owen Davies, Darlithydd mewn Addysg, wedi ei gydnabod yn arweinydd byd-eang mewn defnyddio technoleg i drawsnewid addysg trwy gael ei enwi'n *Microsoft Innovative Educator Expert* (MIE), gan ymuno â dros 6,700 o addysgwyr ar y rhaglen MIE ledled y byd.

Bob blwyddyn, mae Microsoft yn dewis addysgwyr arloesol i rannu syniadau, rhoi cynnig ar dulliau gweithredu newydd, a dysgu oddi wrth ei gilydd fel cymuned fyd-eang sydd wedi ymroi i wella canlyniadau myfyrwyr trwy dechnoleg.

Meddai Owen Davies: "Dwi'n ei theimlo'n fraint i fod yn rhan o gymuned fyd-eang *Microsoft Innovative Educator Expert*. Fy nod yw dod ag offer proffesiynol ac addysgeg o'r radd flaenaf i fyfyrwyr yr Ysgol Addysg fel y gallant ysbrydoli dysgwyr a hybu cydweithio effeithiol yn eu dosbarthiadau."

Fel *MIE Expert*, mae addysgwyr yn meithrin eu gallu i ddefnyddio technoleg yn y dosbarth ac yn y cwricwlwm i wella'r ffordd mae myfyrwyr yn dysgu. Maent hefyd yn cynghori Microsoft a sefydliadau addysgol ar sut i integreiddio technoleg mewn ffyrdd cadarn ym myd addysg, ac egluro mewn cynadleddau, digwyddiadau a sesiynau hyfforddi sut y gall technoleg Microsoft wella dysgu.

"Mae *Microsoft Innovative Educator Experts* yn enghreifftiau clodwiw o addysgwyr yn rhoi dulliau addysgu a dysgu newydd ar waith yn eu dosbarthiadau er mwyn ysgogi eu myfyrwyr a'u galluogi i gyflawni mwy," meddai Anthony Salcito, Is-lywydd, Addysg Fyd-eang, Microsoft. "Rydym yn edmygu a chefnogi'r gwaith maent yn ei gyflawni bob dydd!"



Owen Davies, sydd wedi ymuno â grŵp o addysgwyr arloesol rhyngwladol.



DATBLYGU CYMUNED O YSGOLHEIGION MEWN YMARFER

Ledled y DU, mae gyrfaoedd academiaidd clinigol yn faes allweddol o ran datblygu gwasanaethau iechyd blaengar sy'n cefnogi'r ymarferwyr medrus i ymgysylltu ag ymchwil academiaidd a allai hefyd sbarduno gwelliannau yn nhrefniadaeth a darpariaeth gofal iechyd, mewn amgylchedd cynyddol gymhleth.

Mae'r Ysgol Gwyddorau Iechyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) i gynhyrchu llwybr arloesol i glinigwyr ar draws ystod eang o broffesiynau amlddisgyblaethol i ddatblygu gyrfaoedd academiaidd clinigol, yn canolbwyntio i ddechrau ar nyrsio a meddygaeth.

Roedd y fenter yn ymdrech ar y cyd rhwng clinigwyr amlddisgyblaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac academyddion yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd. Mae hefyd yn cynnwys llwybr arloesol 'cyntaf i addysgu ac ymchwil' ar gyfer graddedigion newydd gyda'r CCC, gan hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgol a'r 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer gofal drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ymarfer clinigol.

Mae'r Llwyr Academaidd Clinigol newydd yn galluogi amrywiaeth o glinigwyr i ddilyn llwybr hyblyg, sydd wedi'i wreiddio yn yr Ysgol i gefnogi datblygiad gyrfaoedd academiaidd clinigol yng ngogledd Cymru. Mae'r Rhaglen Gwella Glinigol yn canolbwyntio ar ysgogi a datblygu arloesedd mewn arfer clinigol bob dydd, gan ddefnyddio gwaith gweithredu sy'n canolbwyntio ar 'Ganolfan Wella' yr Ysgol.

Mae'r Rhaglen Academaidd Glinigol yn canolbwyntio ar gwblhau gwaith ymchwil. Yn allweddol, bydd yr academyddion clinigol ar y llwybr yn elwa o weithio gydag amrywiaeth o ganolfannau ymchwil y Brifysgol.

Mae'r Llwyr Academaidd Clinigol yn darparu'r fframwaith ar gyfer arloesi mewn ymarfer ac yn galluogi clinigwyr i barhau o fewn ymarfer, wrth gwblhau gradd ôl-raddedig a phontio prifysgol â bywyd clinigol. Yn bwysig iawn fel rhan o'r fenter hon, mae 'Cymuned o Ysgolheigion mewn Ymarfer' yn darparu cefnogaeth cymheiriaid i academyddion clinigol, gan hwyluso rhannu dysgu a mentegarwch.

LANSIO COLEG RHYNGWLADOL BANGOR

Y llynedd, llofnododd Prifysgol Bangor bartneriaeth newydd gydag Oxford International Education, darparwr addysg achrededig unigryw, sy'n flaenllaw ym maes addysg yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghanada. Ym mis Tachwedd 2017, lansiwyd Coleg Rhyngwladol Bangor, coleg sydd wedi ei wreiddio ar gampws y Brifysgol. Bydd myfyrwyr yn gallu ymgymryd â rhan gyntaf rhaglen radd estynedig sy'n cyfuno sgiliau academiaidd a sgiliau iaith Saesneg ac astudio yn y Coleg newydd.

Bydd Coleg Rhyngwladol Bangor yn addysgu camau cyntaf ystod o raddau integredig a chorfforedig, ar lefel israddedig ac ôl-raddedig mewn nifer o bynciau gan gynnwys busnes, rheolaeth, cyllid, bancio buddsoddi, peirianeg electronig, cyfrifiadureg, y gyfraith, y cyfryngau, seicoleg a gwyddorau cymdeithasol. Ar ôl cwblhau rhan 1 yn llwyddiannus yng Ngholeg Rhyngwladol Bangor, gall myfyrwyr wedyn barhau â'u hastudiaethau yn rhan 2 yn uniongyrchol ym Mhrifysgol Bangor.



Staff a myfyrwyr Coleg Rhyngwladol Bangor yn ystod y lansiad.

Aeth 100% o garfan gyntaf myfyrwyr Coleg Rhyngwladol Bangor ymlaen i ran 2 yn 2017/18 a bydd y bartneriaeth yn dathlu ei graddedigion cyntaf ym mis Rhagfyr 2019.

Yn ystod y digwyddiad lansio, dywedodd Mark Stanton, Prif Swyddog Gweithredol Oxford International Education:

“Rydym yn falch o gael gweithio gyda sefydliadau sydd â phroffil ac ymrwymiad sylweddol i addysg ryngwladol megis Prifysgol Bangor. Mae ein myfyrwyr yn elwa o allu symud ymlaen yn uniongyrchol i ystod o raglenni gradd uchel eu parch gyda'r Brifysgol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Brifysgol i ehangu'r amrwiaeth o bynciau sydd ar gael a darparu dilyniant di-dor i gyrsiau gradd i'n myfyrwyr.”

RHYNGWLADOLI

MYFYRIWR RHYNGWLADOL Y FLWYDDYN UNDEB CENEDLAETHOL Y MYFYRWYR



Myfyrwraig ôl-raddedig o India, Charu Dada, enillodd wobwr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr am 'Fyfyrwr Rhyngwladol y Flwyddyn 2018'. Rhoddir y wobwr hon i fyfyrwr rhyngwladol sydd wedi dangos yr effaith ddynamig a chadarnhaol y gall myfyrwyr rhyngwladol ei gael yn eu sefydliadau ac ar eu cymunedau lleol. Disgwylir bod yr enillydd wedi dangos ymrwymiad i fanteisio i'r eithaf ar brofiad myfyrwyr rhyngwladol yn y DU ac i wella profiadau eraill.

Trwy gydol ei hamser ym Mangor, bu Charu yn ymroddi ei hun i helpu myfyrwyr rhyngwladol y Brifysgol. Yn ei rôl fel Llysgennad Myfyrwyr Rhyngwladol, neilltuodd ei hamser sbâr i gynorthwyo gyda chasglu myfyrwyr o'r maes awyr, gyda theithiau campws a gweithgareddau'r wythnos groeso. Treuliodd Charu gyfran helaeth o'i hamser yn gwirfoddoli gydag achosion amgylcheddol, yn dathlu diwylliant Cymru, ac yn gweithio gyda myfyrwyr a ffoaduriaid sy'n ceisio am loches yn y DU.

Meddai Alan Edwards, Pennaeth Cymorth i Fyfyrwyr Ryngwladol:

“Mae Charu wedi bod yn gefnogwr brwd i Swyddfa Ryngwladol y Brifysgol fel Llysgennad Myfyrwyr Rhyngwladol ers blyneddau lawer. Cynorthwyodd hefyd gyda sawl menter megis cefnogi myfyrwyr yn ehangach ar draws y Brifysgol, fel Warden Neuaddau, cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr, cynrychiolydd Ysgol ac fel arweinydd Cymdeithas India'r Brifysgol. Mae ei rôl gefnogol wedi cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan ei bod wedi helpu llawer o fyfyrwyr i ymgartrefu mewn gwlad, diwylliant a Phrifysgol newydd.”

Graddiodd Charu gyda doethuriaeth EdD mewn Addysg ym mis Gorffennaf a'i phrif nod yw parhau i weithio ym maes addysg mewn prifysgol yn India neu dramor.

CARFAN CYNTAF MYFYRWYR COLEG BANGOR TSIEINA YN GRADDIO



Staff a myfyrwyr yn seremoni graddio Bangor.

Cyrhaeddodd Coleg Bangor Tsieina garreg filltir allweddol ym mis Gorffennaf 2018 gyda'i charfan gyntaf o fyfyrwyr yn graddio. Agorwyd Coleg Bangor Tsieina yn 2014, gan gynnig graddau BSc mewn Cyfrifeg a Chyllid, Bancio a Chyllid, Peirianeg Electronig a Coedwigaeth a Rheolaeth Amgylcheddol.

Mewn partneriaeth rhwng Prifysgol Bangor a *Central South University of Forestry and Technology* yn Changhsa, Tsieina, gall myfyrwyr ennill gradd ddwbl - gradd baglor gan y ddau sefydliad, gan wella eu gwybodaeth,

eu sgiliau a'u rhagolygon cyflogaeth ar gyfer y dyfodol. Caiff myfyrwyr eu haddysgu gan academyddion blaenllaw o'r ddau sefydliad a gallant ddewis ymgymryd â'u hastudiaethau cyfan yn Tsieina neu gychwyn eu hastudiaethau yn Tsieina a'u cwblhau yn y DU.

O blith y 227 o raddedigion ar draws y ddau gampws yn 2018, cafodd 88 eu trosglwyddo i Brifysgol Bangor. Llwyddodd 91 o fyfyrwyr yn y garfan gyntaf hon o bob rhan o'r ddau gampws i ennill graddau dosbarth cyntaf ag anrhydedd.

Graddiodd myfyrwyr o Tsieina mewn seremoni ar 8 Gorffennaf yn *Central South University of Forestry and Technology* gyda myfyrwyr y DU yn graddio ar 16 Gorffennaf ym Mhrifysgol Bangor. Mynychwyd y ddwy seremoni gan arweinwyr y ddwy brifysgol; yr Athro John G Hughes, Is-ganghellor Prifysgol Bangor a'r Athro Zhao, Ysgrifennydd y Blaid yn *Central South University of Forestry and Technology*.

Staff a myfyrwyr yn y seremoni raddio yn Tsieina.



Darlithfa / Lecture theatre



CYFRWNG CYMRAEG

Mae ystadegau diweddar wedi datgelu fod bron hanner o'r holl fyfyrwyr sy'n astudio cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg bellach yn gwneud hynny ym Mhrifysgol Bangor. Yn ogystal, ym Mhrifysgol Bangor mae'r nifer fwyaf o ddarlithwyr sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac yn hollbwysig er mwyn cyflawni strategaeth y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Meddai'r Athro Jerry Hunter, Dirprwy Is-gangellor (Cyfrwng Cymraeg a Chysylltiad â'r Gymuned): "Mae cael cyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg gyflawn, sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc Cymru ddysgu ac astudio drwy'r Gymraeg o'r cyfnod meithrin hyd at gyfnod addysg uwch, yn gwbl allweddol at ffyniant yr iaith."

"Wrth anelu i gyrraedd y miliwn erbyn 2050, mae'n hanfodol fod ein sefydliadau addysg uwch ni yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn hyn o beth, calondid yw gweld fod Prifysgol Bangor yn arwain y maes yng Nghymru ac yn darparu cyfleoedd niferus i fyfyrwyr astudio rhaglenni gradd llawn a modiwlau unigol yn yr iaith."

Ychwanegodd yr Athro Hunter: "Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cael eu dosbarthu ledled Cymru, mae'n rhyfeddol fod 44% o'r holl fyfyrwyr sy'n astudio cwrs gradd yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud hynny ym Mangor."


"Mae'n wych ei bod hi'n bosib astudio rhai pynciau yn gyfangwbl trwy'r Gymraeg, ond dylid cofio hefyd y gellir astudio elfennau o bob pwnc ym Mangor drwy'r Gymraeg."

Gwelwyd yn ddiweddar fod Prifysgol Bangor yn arwain mewn sawl maes sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Cyhoeddwyd y *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* ym Medi 2018, cyfeirlyfr awdurdodol sydd yn cwmpasu holl gyfoeth cerddoriaeth yng Nghymru o'r 6ed Ganrif hyd at y presennol. Ac yng nghyd-destun y cyfnod presennol a lle technolegau yn ein bywydau beunyddiol, rhoddwyd sylw i ymchwil ac adnoddau arbenigol Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr yn Senedd Ewrop yn ddiweddar.

Yn ogystal â hyn, bu'r Uned Technolegau Iaith yn gyfrifol am gyfrannu eu harbenigeddau at gynllun gweithredu technoleg Cymraeg a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn mis Hydref 2018, gan arwain ar ddatblygu fersiynau Cymraeg o gynorthwywyr personol digidol a systemau deallusrwydd artifisial a fydd yn caniatáu i'r peiriannau hyn ddeall Cymraeg. Yn ogystal, o ganlyniad i arbenigeddau Prifysgol Bangor, bydd modd defnyddio technoleg


NIFEROEDD CYFRWNG CYMRAEG

Ffynhonnell: Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2018)



STAFF SY'N ADDYSGU DRWY'R GYMRAEG

Ffynhonnell: Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2018)



er mwyn datblygu system cyfieithu peiriannyddol, a fydd yn arwain at gynyddu nifer y testunau Cymraeg fydd ar gael i'w darllen a'u clywed.

Esboniodd yr Athro Hunter, bwysigrwydd arbennigedd y Brifysgol:


"Yn ogystal â bod yn ddarparwr addysg uwch cyfrwng Cymraeg o bwys, mae'n wych gweld Prifysgol Bangor yn arwain ar yr holl elfennau atodol honny – ymchwil, polisi a thechnoleg – sy'n cyfrannu at gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nid agweddau

ar wahân mo rhain, yn bodoli mewn gwagleoedd, ond yn hytrach y seilwaith sydd ei hangen arnom wrth i ni gyrchu'r nod uchelgeisiol hwn."

"Does dim dwywaith fod Bangor yn arwain ar ddatblygu a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael er mwyn defnyddio'r Gymraeg. Mae ein cyfraniad tuag at ysgolheictod trwy gyfrwng y Gymraeg yn unigryw, ond yn bwysicach fyth efallai, yw ein cyfraniad tuag at ddiogelu a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

"Rhaid cofio fod myfyrwyr Bangor yn datblygu i fod yn athrawon, staff iechyd, pobl fusnes, gwyddonwyr a gweision sifil y dyfodol, ac mae'r ffaith fod cynifer ohonynt wedi cyflawni eu gradd trwy'r Gymraeg yn hanfodol i lwyddiant strategaeth y Llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050," ychwanegodd yr Athro Jerry Hunter.

CYMUNED



Parc Gwyddoniaeth Menai yng Ngaerwen, a'r ystafell gyfarfod.

M-SPARC YN CYRRAEDD Y 100

Agorodd Parc Gwyddoniaeth Menai, M-SParc, sy'n eiddo llwyr i Brifysgol Bangor, ar 1af Mawrth 2018, ac mae eisoes wedi cyrraedd carreg filltir allweddol gyda 100 o bobl bellach yn gweithio yn yr adeilad cyntaf.

Cafodd y cyfleuster £20m, a ariennir yn rhannol gan gyllid datblygu rhanbarthol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru, ei gwblhau ar amser ac o dan y gyllideb, gyda 40% o'r adeilad bellach wedi'i osod, a chyflawnwyd hyn yn gynt na'r targed. Yn seiliedig ar fodel busnes arferol parc gwyddoniaeth, roedd y cwmni'n rhagweld y byddai 15% o'r gofod wedi ei osod yn y misoedd cyntaf, gan gynyddu i'w cynhwysedd llawn dros nifer o flynyddoedd.

Mae gan M-SParc ofod labordy, swyddfa a gweithdy sydd ar gael i'w gosod, yn ogystal â 'Tanio', ardal caffi agored lle y gall unrhyw un wneud defnydd o'r

cyfleusterau a wi-fi am ddim. Mae yno hefyd bedair ystafell gyfarfod a 'Ffwrnnes', sef ardal ar gyfer poeth-ddesgio.

Mae trafodaethau ar waith gyda nifer o adrannau'r Brifysgol am gyfleoedd i gydweithio â M-SParc.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr, Pryderi ap Rhisiart, a gymerodd yr awenau gan Ieuan Wyn Jones ym mis Mai yn dilyn ei ymdddeoliad:

"Rydym am ddenu'r meddyliau disgleiriaf yn y rhanbarth, a chadw'r dalent yma yng ngogledd orllewin Cymru. Bydd M-SParc yn eu helpu i ffynnu, gan ddarparu cymorth busnes llawn a lle iddynt dyfu. Mae'r ffaith ein bod yn gallu cyhoeddi bod gennym 13 o denantiaid, gyda nifer o ymholiadau yn ein cyrraedd yn ddyddiol yn newyddion cyffrous iawn."

MYFYRWYR RHYNGWLADOL YN TROI'N WYRDD

Lansiodd Swyddfa Cymorth i Fyfirwyr Rhyngwladol fenter newydd, 'Myfirwyr Rhyngwladol yn Troi'n Wyrdd', gyda dau brif nod - helpu myfirwyr rhyngwladol i integreiddio gyda myfirwyr cartref/ DU ar lefel gymdeithasol, a chyfrannu at agenda cynaliadwyedd y Brifysgol.

Roedd y fenter yn cynnwys cyfres o dri piau a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn academaidd, gan godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, cynaliadwyedd a lles ymhlith myfirwyr rhyngwladol. Mae'r fenter wedi helpu cymunedau lleol, ac wedi hyrwyddo ffyrdd o sicrhau presennol a dyfodol mwy gwyrdd, wrth gyfrannu at nod Prifysgol Bangor o fod yn 'brifysgol gynaliadwy'.

Trefnwyd tri piau a digwyddiadau amrywiol, gan gynnwys 'traeth glân' yng Nghricieth. Ynghyd ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, casglodd tîm o 50 o fyfirwyr rhyngwladol 26 o fagiau mawr o sbwriel.

Dywedodd Dawn Thomas, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru: "Roedd presenoldeb a brwdfrydedd y grŵp wedi creu cymaint o argraff arnaf. Roedd yn ddi-ddorol iawn



Myfirwyr rhyngwladol ar draeth Cricieth.

clywed eu hargraffiadau o sbwriel môr a'r hyn sy'n digwydd yn eu gwledydd eu hunain i fynd i'r afael â'r mater byd-eang hwn."

Ymhlith y digwyddiadau eraill yn addurno coeden Nadolig y Brifysgol gyda deunyddiau wedi'u hailgylchu, noson ffilm, cefnogi teuluoedd ffoaduriaid o Syria a sesiwn casglu sbwriel yng nghanol Dinas Bangor.

Trefnwyd yr holl ddigwyddiadau drwy sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth adrannau eraill y Brifysgol, sefydliadau lleol ac elusennau. Llwyddodd y prosiect

i ennyn diddordeb myfirwyr rhyngwladol mewn codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, gyda'r gobaith y byddent yn cymryd yr hyn a ddysgasant yn ôl i'w gwledydd hwy.



GWIRFODDOLI YN Ffordd o fyw i Elan

Roedd Elan Môn Gilford, myfyrwraig Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, yn un o blith ond 20 o bobl ledled y byd a dderbyniodd Wobr Etifeddiaeth Diana (*Diana Legacy Award*) am waith gwirfoddol.

Rhoddir y Wobr yn enw'r Dywysoges Diana i bobl ifanc sydd yn gosod esiampl wrth roi o'u gwirfodd er mwyn trawsnewid bywydau eraill. Mae'r wobwr yn cydnabod pobl ifanc sydd yn mynd y tu hwnt i'w bywydau dyddiol hwy er mwyn creu a chynnal newid positif yn eraill.

Mae Elan yn mwynhau chwaraeon o bob math ac wedi ei gwobrwyo am ei brwdfrydedd wrth rannu ei hangerdd dros chwaraeon gydag eraill. Mae wedi treulio dros 2,000 o oriau dros gyfnod o flwyddyn yn gwirfoddoli. Mae hi'n rhannu ei sgiliau hyfforddi, mentora a threfnu gydag amrediad o glybiau a thimau plant, gan gynnwys timau pêl-rwyd, athletau, hoci a rygbi.

Dechreuodd Elan wirfoddoli gyda'r Urdd, ac roedd yn Arweinydd Chwaraeon Mileniwm gyda'r sefydliad ac yn Llysgennad Ifanc Platinwm 5x60 Chwaraeon Cymru.

Dywedodd: "Rwy'n gwirfoddoli gan fy mod yn dysgu yn barhaus, boed yn dysgu rhywbeth newydd am bobol eraill, am gydweithredu, am dosturi neu amdanaf fi fy hun.

"Rwyf wedi wynebu nifer o heriau! Gan i mi dderbyn diagnosis o fyddardod yn dair oed, mae gwirfoddoli wedi bod yn gam mawr i mi, yn enwedig gan fy mod yn dibynnu ar ddarlenn gwefusau a'r hyn rwy'n ei glywed o'm dau gymhorthydd clyw. Mae'n debyg mai ceisio darllen gwefusau 20-30 o blant sydd yn siarad ar draws ei gilydd mewn canolfan chwaraeon yw un o'r heriau mwyaf anodd hyd yn hyn!

"Wrth wirfoddoli, rwyf wedi llwyddo i ddangos i eraill nad oes rhaid i anabledd effeithio ar yr hyn y gallech ei gyflawni. Mae wastad datrysiad i unrhyw anhawster os ydych yn barod i weithio'n galed."

Elan Gilford gyda Thywysog Harry a Dug Caergrawnt.